



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Taith tuag at

Gymru Gydnerth

- 1: Bioamrywiaeth a Phridd:** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau gweithredol iach
- 2: Mannau Gwyrdd Naturiol:** Cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol
- 3: Gwybodaeth o Natur:** Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iachach gweithredol naturiol
- 4: Dŵr ac Ansawdd Aer:** Cynorthwyo cydnerthedd ecolegol gan wneud amgylchedd iachach ar gyfer bywyd gwyllt a phobl
- 5: Defnyddio Adnoddau Naturiol:** Ymaddasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n effeithlon





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sy'n cynnal a gwella
amgylchedd naturiol bioamrywiol
gydag ecosystemau iach, gweithredol
sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol,
economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu
i addasu i newid”.*



Diffinio'r nod

Yma yng Nghymru, rydyn ni yn awr ymhlith y gwledydd mwyaf diffygiol mewn natur yn y byd, gyda 1 o bob 14 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Mae gan Gymru hefyd beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DG, yn dal i allyrru nifer mawr o nwyon tŷ gwydr ac yn awr mewn mwy o berygl o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr gwaeth. Heb ecosystemau iach gweithredol, ni allwn wrthsefyll, adennill nac addasu i'r newidiadau sy'n wynebu ein planed.


Mae ein hamgylchedd naturiol yma yng Nghymru yn allweddol ar gyfer ein llesiant: mae'n darparu'r aer yr ydym yn ei anadlu, ein bwyd, 951 miliwn litr o ddŵr yfed bob dydd, ein dillad, moddion, deunyddiau fel coed, yn ogystal â manau gwyrdd i'w mwynhau. Fodd bynnag, rydyn ni'n byw ar adeg o newid annhebyg i unrhyw beth a welwyd cyn hyn yng nghyd-destun ein planed. Mae bioamrywiaeth, 'amrywiaeth holl fywyd ar y ddaear' wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 60% mewn

rhywogaethau ar draws y byd ers 1970. Nod Cymru gydnerth yw gwyrddo'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol bioamrywiol, i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'n heffaith fel unigolion a sefydliadau, sicrhau ein bod yn ecolegol gydnerth gydag ecosystemau iach, ac yn cynorthwyo llesiant cymunedol.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cyflwyno **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)** yn nodi ymagwedd tuag at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol i sicrhau bod y manteision a ddarperir ganddynt ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **polisi Adnoddau Naturiol** yn nodi blaenoriaethiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol i ni i gyd gyfrannu tuag atynt.

Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â phrif-ffrydio gweithgaredd ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein hardaloedd trefol a gwledig a lleihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol. Bydd **datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n** cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a bydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a byddant yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Cyflwynodd Adran 6 o dan Rhan I ddyletswydd ecosytemau bioamrywiaeth a chydnerthedd (dyletswydd S6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) wrth iddynt ymarfer eu gweithgareddau mewn perthynas â Chymru. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yng [Nghannllaw Hanfodion Llywodraeth Cymru](#).

[Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\)](#) yn gosod y sail ar gyfer testiolaeth cenedlaetholar ar gydnerthedd ecosystemau yng Nghymru fel y gallwn ddeall i ba raddau y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni. Y blociau adeiladu cydnerthedd ecolegol yn Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd

Mae **Polisi Cynllunio Cymru'n** gwneud cyfraniad arwyddocaol i welliant llesiant yn ei holl agweddau ac yn sefydlu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ein symud tuag at gymdeithas garbon isel, gydnerth ag amgylcheddau â chysylltedd da ar gyfer pawb yng Nghymru. Gall y system gynllunio gyfrannu tuag at wella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol, gan atal a gwyrddroi colli bioamrywiaeth, cynnal a gwella seilwaith gwyrdd, sicrhau dewisiadau cydnerth ar gyfer seilwaith a'r amgylchedd adeiledig, gan symud tuag at economi mwy cylchol yng Nghymru; a hwyluso datgarboneiddio

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'Ad'

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy tebygol o ddigwydd pan

- **Gweithredu'n ddigon cyflym i ymladd colli bioamrywiaeth.**
- **Digwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cynyddu ymwybyddiaeth (e.e. 'Blue Planet 2') a fedr ddwyn y pwnc i'r 'bwrdd gwleidyddol'.**
- **Pan gydnabyddir bod Seilwaith Gwyrdd yn ddull effeithiol y gellir ei gyflwyno i liniaru nifer o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.**
- **Sefydliadau (yn cynnwys busnes) yn deall ac yn gweithio i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), SMNR, adroddiad SoNaRR, Polisi Adnoddau Naturiol a Pholisi Cynllunio Cymru.**
- **Sefydliadau cymunedol yn cael eu galluogi i sbarduno newid yn eu hardal i sicrhau bod natur yn rhywbeth y gellir ei gyrchu a'i werthfawrogi gan bawb.**



Analluogwyr

Achi Mae cyflawni'r nod hwn yn llai tebygol o ddigwydd pan

- **Grantiau amgylcheddol yn llai ac yn rhwystrol ac am dymor byr yn unig.**
- **Twf economaidd, yn cynnwys swyddi a busnes, yn cael blaenoriaeth dros yr amgylchedd naturiol, gyda niwed amgylcheddol yn cael ei gyfaddawdu er mwyn twf yn y tymor byr.**
- **Methiant i gynllunio, dylunio a rheoli seilwaith gwyrdd yn digwydd o'r cychwyn cyntaf mewn rhaglenni a phrosiectau.**
- **Ffocws ar wastraff, trafnidiaeth ac ynni, i ffwrdd oddi wrth yr amgylchedd naturiol.**
- **Diffyg gwybodaeth - seilwaith gwyrdd yn cael ei weld fel rôl adran yr amgylchedd.**





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

4. Dŵr ac Ansawdd Aer

Cynorthwyo cydnerthedd ecolegol gan
wneud amgylchedd iachach ar gyfer
bywyd gwylt a phobl

Diffinio'r mater

Llygredd aer yw un o'r peryglon mwyaf i iechyd. O fewn y DG, mae ansawdd aer gwael yn yr awyr agored yn gysylltiedig â 50,000 o farwolaethau bob blwyddyn gyda phlant, pobl oedrannus, neu'r rhai â chyflyrau iechyd meddygol yn y perygl mwyaf. Mae dros 74% o gynefinoedd Cymru'n dioddef o lygredd awyr niweidiol. Mae dylunio seilwaith trefol - e.e. coed, cloddiau, coetiroedd, parciau, a muriau gwyrdd - yn penderfynu lle mae llygredd aer yn cael ei gynhyrchu, a sut mae'n gwasgaru. Hefyd mae amrywiaeth mewn coed brodorol a llwyni'n

chwarae rhan mewn darparu **cysgod, amsugno carbon deuocsid, darparu pren, lleihau llifogydd a darparu ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt a mamaliaid.**

Gall yr amgylchedd naturiol hefyd chwarae rhan drwy helpu i leihau llifogydd. Ledled Cymru mae oddeutu 12% o gynefinoedd oedd gynt ar orlifdir a lefelau arfordirol yn awr yn cynnwys adeiladau, ac mae cyfran sylweddol o'r gweddill ohono wedi cael ei newid yn eithafol gan flynyddoedd o

ddefnyddio gwrtaith, gan leihau ei allu i amsugno gormodedd o ddŵr. Gall datrysiadau naturiol sy'n edrych ar y dalgylch cyfan yn hytrach na man penodol lle ceir llifogydd, helpu i atal llifogydd, gyda chysylltedd pyllau dŵr, corysdd, ucheldir, coetiroedd, gwlyptiroedd a glaswelltir cyfoethog mewn rhywogaethau, yn ogystal â chynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy yn gweithredu fel sbyngau enfawr, yn amsugno a dal dŵr ac arafu dŵr sy'n rhedeg i lawr i mewn i afonydd.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru iachach
Pwnc 3: Iechyd a llesiant cymunedau

Gwneud Newidiadau Syml

Caffael a phlannu dim ond coed a llwyni brodorol fel dewis cyntaf neu sicrhau bod pob coeden o 'werth i natur'. (h.y. ar gyfer lloches, bwyd, ffynonellau neithdar, cysgod, safleoedd nythu neu fridio.

Ee

E.e. mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr** wedi datblygu rhestr o goed sy'n addas ar gyfer eu plannu yn yr ardal.

Cynorthwyo'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw i ofalu am goed lleol, gan ffocysu'n benodol ar bobl ifanc.

Ar dir sy'n eiddo i chi neu yr ydych yn gweithio ynddo, nodi, asesu a mapio coed presennol pwysig ar gyfer eu gwarchod.

Cael arweiniad ar blannu, torri ac ail-blannu coed oddi wrth bobl broffesiynol.

Ar dir sy'n eiddo i chi neu yr ydych yn gweithio ynddo: lle nad yw technegau 'plygu' traddodiadol yn ymarferol, ystyriwch dechneg [plygu bywyd gwyllt](#).

Gweithredu arolygon. 'i-Tree' i ddeall mantais coeden i'r cyhoedd.

Cynorthwyo creu a gwarchod coetiroedd cymunedol a pherllannau cymunedol

Ee

E.e. Mae Llynfi - coetir cymunedol ar dir a reolir gan **Gyfoeth Naturiol Cymru** (ger Pen-y-bont ar Ogwr) yn hybu iechyd a llesiant, arloesedd, ymgysylltu cymunedol a gweithredu ar lefel tirwedd, gyda manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol niferus

Ee

E.e. **Llyn Parc Mawr** - grŵp coetir cymunedol ar Ynys Môn: 50 cyfer o goetir sy'n cael ei reoli gan y gymuned ar gyfer y gymuned, gan adeiladu llwybrau, plannu coed, rheoli cefn gwlad, hyfforddi

Gwneud **Newidiadau** Syml

Ee

E.e. **Golygfa Gwydyr** - menter gymdeithasol yn Llanrwst, yn gweithio ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sefydliad dielw, a sefydlwyd yn 2004, sy'n gwella cydnerthedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Hybu a datblygu sgiliau coedwigaeth.

Gosod offer dŵr-effeithlon mewn adeiladau, a chasgenni dŵr ynghlwm wrth adeiladau/a'u rhoi i gymunedau ar gyfer dal a defnyddio dŵr glaw

Ee

E.e. **Llywodraeth Cymru'n** gosod wrinalau di-ddŵr am y tro cyntaf yn swyddfa Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful yn Chwefror 2016. Roedd y cynllun peilot yn boblogaidd iawn felly mae unedau pellach yn cael eu gosod mewn swyddfeydd eraill.

St

Annog a hybu pwysigrwydd gerddi naturiol a dreifiau (e.e. drwy gystadleuthau).

Sicrhau bod eich holl ddaliadau tir yn cyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol, i leihau materion llygredd a minimeiddio eu heffeithiau lleol a byd-eang.

Bod Yn Fwy Anturus

Adnabod a mapio meysydd ar gyfer plannu coed yn y dyfodol - gorchudd coed o 20% ar dir mewn ardaloedd trefol i fod yn darged i anelu ato - gydag amrywiaeth o rywogaethau addas ar gyfer yr hinsawdd, a'r pridd ac sy'n rhoi 'gwerth i natur'.

Ee

E.e. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych** sy'n ceisio cynyddu canopi coed yn y Rhyl (uchelgais o blannu 18,000 o goed mewn 5 mlynedd) yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned ar y cynllun hwn, drwy gynnal dyddiau plannu etc. ([tud. 37 Adroddiad Blynyddol 2017/18](#)).

Plannu, rheoli ac/neu adfer cynefinoedd cysylltiol megis gwrychoedd, coed, tai a blociau unionlin o goetiroedd. Hwyluso adfywio naturiol (pan fydd hadau'n syrthio o goed ac yn tyfu ar y safle) lle mae hynny'n briodol.

Ar dir sy'n eiddo i chi, tir yr ydych yn ei reoli neu'n gweithio arno, sicrhau bod cyflwyniad mandadol i arferion rheoli gwrychoedd i sicrhau gwaredu bonion coed yn cynnwys torri cylchol ac osgoi ffrwytho ac adar sy'n nythu.

Gweithio gydag eraill i frwydro yn erbyn bygythiadau i iechyd coed; plannu hadau cryf a glasbrennau, cynnal amrywiaeth oed a rhywogaeth, brwydro yn erbyn planhigion ymledol, heintiau a phlâu

St

Archwilio datrysiadau naturiol i lifogydd lleol [megis Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy \(SuDS\)](#) sy'n amlswyddogaethol, a sicrhau bod yna ddarpariaeth ar gyfer peillio. Mae yna ddeddfwriaeth newydd ar y defnydd o SUD mewn datblygiadau newydd <https://gweddiill.gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Bod Yn Fwy Anturus



Creu Gerddi Glaw, pyllau dŵr a gwlyptiroedd i gynyddu cadw dŵr a rheoli dŵr arwynebol sy'n mynd i mewn i garthffosydd er mwyn lleihau llifogydd



E.e. Gardd yng **Nghanolfan Adnodd Bro Abertawe**
<https://www.welshwildlife.org/pressreleases/rain-gardens-for-people-and-wildlife-in-swanea/>



Gosod technoleg ailgylchu dŵr llwyd i leihau'r defnydd o ddŵr yfed ar gyfer tasgau lle nad oes angen dŵr yfed, megis tynnu dŵr mewn tŷ bach.



E.e. Polisi Cynaliadwyedd Dŵr **Fferm Denmark** - cael systemau yn eu lle sy'n arbed dŵr ac yn draenio dŵr gwastraff drwy ddefnyddio prosesau naturiol.

<https://www.denmarkfarm.org.uk/water-sustainability/>



Increase areas of innovative permeable outdoor surfaces for driveways, car parks and other developments which allow rainwater to filter through the surface into the soil below rather than run-off into drains or cause flooding.



E.e. **Singapore** - mae dau draean o arwynebau'r ddinas - megis toeau a phalmentydd - yn medru dal dŵr glaw a'i ddyddodi mewn 18 cronfa ddŵr.

<https://www.smartcitiesdive.com/ex/sustainablecitiescollective/will-urban-green-infrastructure-help-mitigate-megadroughts/1047571/>



Ail-naturioli afonydd a nentydd (gan ganiatáu iddynt ddal mwy o ddŵr ac felly liniaru llifogydd) eu defnyddio fel coridorau bioamrywiol ac fel llwybrau cerdded/beicio



E.e. **Mae'r Canal and River Trust** yn gweithio ar draws y DU i gynnal eu dyfrffyrdd <https://canalrivertrust.org.uk/enjoy-the-waterways/canal-and-river-wildlife/canal-habitats-for-nature>

Perchenogi Eich **Uchelgais**

St

Gweithredu ar y cyd neu'n Genedlaethol

Bod yn rhan o **Gynllun Aer Glân** i Gymru.

Rhoi blaenoriaeth i adfer Safleoedd Coetir Hynafol a Warchodir i gyflwr mwy naturiol, er mwyn bod o fudd i fywyd gwylt brodorol a phlanhigion sy'n dibynnu arnynt.

Ee

E.e. Coedwig Wentwood **Cyfoeth Naturiol Cymru** ger Casnewydd sydd newydd ei hachredu o dan gynllun Canopi Cymanwlad y Frenhines.

St

Gosod targedau ar gyfer atal Arferion Rheoli Tir niweidiol ar orlifdiroedd a mawndiroedd, er mwyn gwella gallu'r cynefinoedd hyn i leihau llifogydd.

Bod yn rhan o gynlluniau ymateb effeithiol a chydnerth i lifogydd ar lefel lleol a chenedlaethol, a ddarperir drwy weithio ar y cyd ag aml-asiantaethau.

Ee

E.e. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** oedd yn arwain Grŵp Dŵr Mewndirol Cymru Gyfan, a gwnaethant gynllunio ymarfer ymateb i lifogydd graddfa fawr, aml-asiantaeth, oedd yn cynnwys ystod o bartneriaid o fforymau Cydnerthedd Lleol yng Nghymru ac a ddarparodd ymatebwyr â chyfle unigryw i brofi cynlluniau cydnerthedd a gweithdrefnau gweithredol mewn amgylchedd heriol.

Perchenogi Eich Uchelgais

Gweithredu Sefydliadol

Cydweithio gydag eraill i sicrhau bod cymaint â phosibl o rywogaethau o goed yn cael eu plannu mewn ardaloedd trefol, i facsimeiddio'r manteision i foamrywiaeth wrth gyrraedd aeddfedrwydd, gyda'r 'goeden iawn yn y lle iawn' gan ystyried ffactorau megis hinsawdd, pridd a gwerth i natur.

Adnabod cyfleoedd ar gyfer [gwasanaethau Taliadau am Ecosystemau](#).

Osgoi bod yn rhan o ddatblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, i leihau'r angen am systemau rheoli llifogydd costus.

Ee

Rhoi blaenoriaeth i ddatrys llifogydd ar sail dalgylch, gan gynnwys grwpiau llifogydd cymunedol mewn cynllunio a gweithredu, yn hytrach na barn leol.

E.e. prosiect cydweithredol Grangetown Wyrddach rhwng **Cyngor Dinas Caerdydd, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru** i reoli'n dŵr glaw yn well drwy ddal, glanhau ailgyfeirio dŵr glaw yn uniongyrchol i mewn i'r afon Taf yn hytrach na'i bwmpio dros 8 milltir drwy Fro Morgannwg i'r môr.
<https://greenergrangetown.wordpress.com/about/>

Ee

E.e. Glawlif Dŵr Cymru - Prosiect **Llanelli**: datblygu a defnyddio datrysiadau newydd arloesol i reoli faint o ddŵr arwynebol sy'n mynd i mewn i garthffosydd.
<https://www.dwrcymru.com/en/My-Wastewater/RainScape/RainScape-Llanelli.aspx>

Ee

E.e. Severn Farm Ponds Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn y **Trallwng**.
<https://www.montwt.co.uk/cy/nature-reserves/severn-farm-pond>

Enghreiffiau eraill ac adnoddau



Coed trefol **Cyfoeth Naturiol Cymru**

<https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/urban-trees/?lang=cy>



Yn 2008 addawodd **Llywodraeth Cymru** blannu coeden am bob plentyn a aned neu a fabwysiadwyd yng Nghymru

<https://gweddill.gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/plantatree/?skip=1&lang=cy>



Gwerthfawrogi Coed Trefol **Pen-y-bont ar Ogwr**

<https://cdn.naturalresources.wales/media/679644/eng-penarbontarogwr-bridgend-i-tree-infographicv2.pdf?mode=pad>



Siarter ar gyfer Coed, Coedwigoedd a Phobl

<https://treecharter.uk/pdf/Charter-for-Trees%2CWoods-and-People.pdf>



Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio: Camau Cyntaf mewn

Ansawdd Aer Trefol

<http://www.tdag.org.uk/first-steps-in-urban-air-quality.html>



Pecynnau Coed Cadw am ddim

<https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/free-trees/>



Ymchwil Coedwigoedd yn Gwella Ansawdd Aer

<https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/urban-regeneration-and-greenspace-partnership/greenspace-in-practice/benefits-of-greenspace/improving-air-quality/>